



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

Ydych chi'n anfonlon
gyda'r gofal a'r driniaeth
rydych chi, neu rywun
arall, yn eu derbyn ar
hyn o bryd, neu
wedi'u derbyn
gan y GIG?





Ydych chi eisiau cymorth i gwyno a chywiro pethau?

Gall Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) eich helpu chi i ddefnyddio proses pryderon GIG, "Gweithio i Wella".

Mae ein Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion yn:

- Rhad ac am ddim
- Annibynnol
- Cyfrinachol

Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn gweithio oddi mewn i reoliadau cwynion GIG.

Gall ein Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion:

- Eich cynorthwyo chi i godi pryder am eich gofal GIG, ni waeth ble darparwyd y gofal
- Eich cynorthwyo chi i godi pryder ar ran rhywun arall, gan gynnwys os oes rhywun wedi marw
- Gwranddo ar eich pryderon
- Eich cyfeirio chi at y sefydliad sy'n gywir i chi
- Ateb unrhyw gwestiynau am y weithdrefn bryderon ac esbonio eich opsiynau
- Darparu canllaw cam wrth gam i'r broses bryderon a rhai cynghorion
- Eich darparu chi ag eiriolwr, sef gweithiwr profiadol a all eich helpu i godi eich pryder a'ch cefnogi chi trwy'r broses.



Nid yw ein Gwasanaeth Eiriolaeth yn gallu:

- Gwneud penderfyniadau ar eich rhan
- Cynnig barn ar ddilysrwydd pryder
- Cynnig opsiynau clinigol na rhoi cyngor meddygol
- Cynnig cyngor ar ofal a thriniaeth barhaus
- Ymchwilio i bryderon
- Darparu cymorth gyda Phaneli Gofal Iechyd Parhaus neu Baneli Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol
- Darparu cefnogaeth mewn cwestau
- Darparu cymorth gyda chwynion a wnaed i'r CMC
- Darparu cymorth gyda chwynion a wnaed i'r CNB
- Darparu cymorth gyda chwynion a wnaed i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Cynnig cymorth ychwanegol, megis galar a chwmsela. Gellir darparu manylion cyswllt gweithwyr proffesiynol o'r fath, os oes angen
- Eich helpu chi i godi pryder eich hun os ydych chi dan 18 oed
- Gweithio, gan amlaf, ar bryderon sydd dros 12 mis oed, oni bai eich bod newydd ddarganfod bod gennych achos i gwyno, neu fod gennych reswm da arall dros beidio â chodi eich pryderon yn gynt

- Rhoi cyngor cyfreithiol neu gymorth gydag achos cyfreithiol
- Cymorth gyda materion nad yw rheoliadau cwynion GIG yn eu cwmpasu. Mae hyn yn cynnwys pethau fel: Gwasanaethau Cymdeithasol, triniaeth a ariennir yn breifat, materion staff, megis disgyblu staff neu faterion cytundebol
- Eich helpu chi os ydych chi, neu'r person a dderbyniodd ofal GIG, yn byw tu allan i Gymru.



Eisiau gwybod mwy am broses bryderon y GIG ac ai dyma'r un iawn i chi?

Mae ein llyfryn 'Canllaw Cam wrth Gam' i godi pryder am y GIG yn eich tywys chi drwy'r weithdrefn ac mae'n cynnwys cynghorion defnyddiol. Mae'n bosibl y gwelwch chi fod y llyfryn, a'r adnoddau eraill y mae'n cyfeirio atynt, yn eich galluogi chi i reoli eich pryder eich hun, heb gymorth ychwanegol.

Gallwch gaffael y llyfryn oddi ar ein gwefan. Ond cofiwch, rydym ni yma os oes arnoch ein hangen ni.

www.communityhealthcouncils.org.uk

02920 235 558

Suite 5, Llawr Cyntaf,
Tŷ Myrddin,
Heol yr Hen Orsaf,
Caerfyrddin
SA31 1BT

Ffôn: 01646 697610
E-bost: hyweldda@waleschc.org.uk

